Ysgol Gynradd Gymraeg Cefneithin
Heol Y Parc
Cefneithin
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA14 7DE

05/02/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Ionawr 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Gymraeg Cefneithin yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn adeiladol

- Mae arweinwyr wedi blaenoriaethu'r angen i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd ar draws yr ysgol. Maent wedi sicrhau bod bron bob aelod o'r staff addysgu wedi cwblhau gweithgareddau dysgu proffesiynol priodol. Mae hyn yn cefnogi staff i werthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn effeithiol.
- Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mathemateg  sy'n diwallu anghenion disgyblion yn dda. Mae'r gweithgareddau hyn yn gwneud defnydd da o'r awyr agored ac yn ysgogi a thanio dychymyg disgyblion o bob oedran yn llwyddiannus.
- Mae'r staff wedi dechrau cydweithio ag ysgolion lleol i ddatblygu ymhellach y cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mathemateg ar draws y cwricwlwm.
- Yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, mae staff yn sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad parhaus at adnoddau priodol sy'n cefnogi datblygiad eu medrau'n addas.



Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Mae disgyblion yn defnyddio'r adnoddau o fewn cyd-destunau sy'n gyfarwydd iddynt.
- Yn nosbarthiadau'r disgyblion hŷn, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mathemateg ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 yn cymhwyso eu medrau mesur yn bwrpasol wrth iddynt fesur hyd esgyrn eu cyd-ddisgyblion. Yna, maent yn rhesymu pa gyfoedion fyddai wedi bod â'r taldra cywir i weithio yn y pyllau glo.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau mathemategol cryf mewn sesiynau a gweithgareddau dysgu mathemateg. Mae llawer ohonynt yn cymhwyso eu medrau'n llwyddiannus mewn amryw gyd-destunau diddorol tu fewn a thu allan i'r dosbarth.

## Darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu

- Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau cadarn i werthuso darpariaeth yr ysgol o ran ymateb i waith a gwella gwaith disgyblion.
- Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol effeithiol i athrawon fel cydweithio ac ymweld ag ysgolion gyfagos.
- Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu adborth bwriadus i ddisgyblion yn ystod eu gweithgareddau. Maent yn holi disgyblion yn fedrus sy'n hybu dealltwriaeth disgyblion a gwneud iddynt feddwl yn ystyrlon am y camau nesaf yn eu dysgu.
- Mae staff wedi addasu'r polisi adborth ac yn gweithredu'n briodol yn unol â'r polisi. Maent wedi addasu'r ddarpariaeth i glustnodi amser priodol i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu ac ymateb i adborth. Ar y cyfan, mae disgyblion yn ymateb yn addas ac yn gwella eu gwaith yn fuddiol.
- Mae arweinwyr yn darparu cwestiynau pwrpasol i rieni i'w cefnogi i drafod gwaith eu plant yn fwriadus yn ystod nosweithiau 'dathlu dysgu'. Mae hyn yn cynyddu hyder y disgyblion i drafod eu gwaith a'r camau nesaf yn eu dysgu yn llwyddiannus.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692000

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol